| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **14 Mai 2013** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Y Cynghorydd Eryl Williams, Aelod Arweiniol Addysg** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Pennaeth Cwsmeriaid a Chefnogaeth Addysg** |
| **Teitl:** | **Darpariaeth yn seiliedig ar Ffydd** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Pwrpas yr adroddiad yw rhoi gwybod i Aelodau'r Cabinet am ganfyddiadau'r ymgynghoriad anffurfiol dechreuol a cheisio cymeradwyaeth i ddechrau ar gam ffurfiol nesaf yr ymgynghoriad cyhoeddus.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Bydd angen penderfyniad gan y Cabinet i gymeradwyo symud ymlaen i'r ymgynghoriad ffurfiol a chyflwyno'r ddogfen ymgynghori ar gyfer y cynigion i gau Ysgol Uwchradd Gatholig y Bendigaid Edward Jones ac Ysgol Santes Ffraid ac agor ysgol newydd.

## 3. Beth yw'r argymhellion?

Yr argymhelliad yw i'r Cabinet:-
(i) nodi canfyddiadau'r ymgynghoriad
(ii) cymeradwyo'r ymgynghoriad ffurfiol ar gyfer y cynigion i gau Ysgol Uwchradd Gatholig y Bendigaid Edward Jones ac Ysgol Santes Ffraid o 31 Awst 2014
(ii) cymeradwyo'r ymgynghoriad ffurfiol mewn partneriaeth â'r Esgobaeth Gatholig ac Awdurdodau Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru ac Ymddiriedolaeth Santes Ffraid* i agor ysgol newydd o 1 Medi 2014
* Cynhwysiad yn ddibynnol ar gael ymateb gan yr Ymddiriedolaeth

## 4. Manylion am yr adroddiad

4.1 Mae'r Cyngor, mewn partneriaeth â chyrff Esgobaethol Catholigion Rhufeinig a'r Eglwys yng Nghymru ac Ymddiriedolwyr Ysgol Santes Ffraid wedi cynnal ymgynghoriad anffurfiol ar ddyfodol darpariaeth uwchradd yn seiliedig ar ffydd. Nododd y Cyngor yn glir ar ddechrau'r ymgynghoriad bod ganddynt bryderon ynglŷn â chynaladwyedd y sefyllfa bresennol ar gyfer addysg ffydd yng Ngogledd Sir Ddinbych, a bod newid yn hanfodol i sicrhau bod darpariaeth ffydd yn cael ei chynnal yn yr ardal.

<u>Canfyddiadau'r Ymgynghoriad Anffurfiol</u>

4.2 Cynhaliwyd yr ymgynghoriad anffurfiol rhwng 5 Rhagfyr 2012 a 29 Ionawr ac roedd yn cynnwys ystod o gyfarfodydd ar gyfer cyfranogion, holiadur i gael barn rhieni a nifer o negeseuon e-bost a llythyrau gan bartïon â diddordeb. Cododd ganfyddiadau'r ymgynghoriad (gweler Atodiad 1 a 2**) nifer o bryderon ynglŷn â beth fydd y newidiadau yn ei olygu.
*** Mae Atodiad 2 ar gael ar wefan Sir Ddinbych ac mae copïau papur ar gael i'w gweld ym mhrif Swyddfeydd y Cyngor.*

4.3 Cafwyd 178 ateb i'r holiadur a gyflwynwyd i holl rieni disgyblion Ysgolion y Bendigaid Edward Jones a Santes Ffraid. Dangosodd y dadansoddiad mai'r prif ddylanwad ar y ddau set o rieni wrth ddewis addysg uwchradd yw ansawdd yr addysg. Roedd atebion eraill yn cynnwys y pellter o'r cartref ac ansawdd yr adeiladau. Roedd y rhain yn bwysicach i rieni Ysgol y Bendigaid Edward Jones (3ydd a 4ydd) o'i gymharu ag Ysgol Santes Ffraid (5ed a 7fed). Yn Ysgol Santes Ffraid credwyd bod maint yr ysgol yn bwysicach. Roedd hyn yn 2il iddyn nhw o'i gymharu â 6ed ar gyfer rhieni Ysgol y Bendigaid Edward Jones. Mewn perthynas ag a fyddai addysg ffydd Anglicanaidd / Catholig ar y cyd yn effeithio ar eu dewis ysgol, dywedodd 37.6% o ymatebwyr o Ysgol Santes Ffraid y byddant yn llai tebygol o fynychu, a nododd 45.4% o ymatebwyr o Ysgol y Bendigaid Edward Jones na fyddai'n cael unrhyw effaith, gyda dim ond 10.4% yn llai tebygol o fynychu.

4.4 O ran y sylwadau a gafwyd gan rieni Ysgol Santes Ffraid, y brif farn ar yr achos dros newid (yn hytrach na sylwadau ar y broses ymgynghori ei hun) oedd o ran cynnal ethos presennol Santes Ffraid, y farn bod Ysgol Santes Ffraid yn ysgol gyda chyrhaeddiad uchel, a'r ddarpariaeth 3-18 yn yr ysgol. Y tu hwnt i'r farn a gafwyd ar yr holiaduron, ni chafwyd unrhyw lythyrau na negeseuon e-bost gan rieni Ysgol y Bendigaid Edward Jones.

4.5 Wrth ystyried canfyddiadau'r ymgynghoriad, er bod gwrthwynebiad cryf gan rieni Ysgol Santes Ffraid yn erbyn symud yn nes tuag at weithio gydag Ysgol y Bendigaid Edward Jones, mae'r awdurdod a'i bartneriaid esgobaethol o'r farn bod cynnal y sefyllfa bresennol yn anghynaladwy yn y tymor hir ac mai ysgol newydd mewn lleoliad newydd yw'r dewis a ffafrir yn y tymor hir.

<u>Y Ffordd Ymlaen</u>

4.6 Er mwyn symud ymlaen, mae'r Cyngor mewn partneriaeth gyda'r partneriaid Esgobaethol ac Ymddiriodolaeth Santes Ffraid yn ceisio symud yn nes at y cynigion gydag agwedd dau gam (gweler Atodiad 3 ar gyfer y ddogfen cynnig ffurfiol). Yn y cam cyntaf byddai Ysgol Uwchradd Gatholig y Bendigaid Edward Jones ac Ysgol Santes Ffraid yn cau ar 31 Awst 2014. Bydd yr ysgol ffydd newydd ar y cyd yn agor ar 1 Medi ac yn defnyddio'r adeiladau presennol yn Ninbych a'r Rhyl i ddechrau. Yn ystod y cyfnod hwn, byddai safle'r Rhyl (hen Ysgol Uwchradd Gatholig y Bendigaid Edward Jones) yn gweithredu fel ysgol 11-16 a byddai safle Dinbych (hen Ysgol Santes Ffraid) yn gweithredu fel ysgol 3-18.

4.7 Yn ail gam y cynigion, bydd y ddarpariaeth bresennol yn cael ei chyfuno ar safle newydd yn ardal Rhuddlan / Bodelwyddan. Oherwydd y byddai’r newid yn cynnwys symud lleoliad yr ysgol dros filltir a newid yr ystod oedran statudol sy’n cael ei wasanaethu yn yr ysgol, bydd angen rhybudd statudol pellach yn ddiweddarach. Mae’r graddfeydd amser ar gyfer cyhoeddi unrhyw rybudd pellach yn dibynnu ar ddatblygu’r cynnig hwn ond disgwylir y bydd yr ymgynghoriad angenrheidiol wedi cychwyn erbyn Haf 2015 fan bellaf. (Mae’r dyddiad hwn yn dibynnu ar y dyddiad gweithredu ar gyfer cam cyntaf y cynigion). Rhagwelir y bydd y prosiect i ddechrau adeiladu’r ysgol newydd yn dechrau yn ystod blwyddyn ariannol 2016/17.

4.8 Bydd amrediad oedran yr Ysgol Ffydd un safle yn cael ei gadarnhau yn ystod ail gam y cynigion. Yn rhan o’r ail gam, y prif opsiynnau fydd ystyried os mai amrediad 3 i 16 oed neu 11 i 16 fydd yr ysgol. Bydd maint yr ysgol hefyd yn cael ei benderfynnu yn ystod ail gam yr ymgynghoriad a rhagwelir y bydd rhwng 600 a 750 o ddisgyblion ar y safle newydd. Rhagwelir y bydd y ddarpariaeth ôl 16 yn cael ei ddarparu yn bennaf gan bartneriaeth bresennol y Rhyl a Prestatyn VI. Byddai’r ymgynghoriad pellach yn cadarnhau sut y bydd darpariaeth o’r fath yn cael ei gwireddu. Rhagwelir y bydd y mwyafrif o’r cyrsiau yn cael eu darparu fel rhan o’r Bartneriaeth bresennol sy’n cynnig darpariaeth yng nghyfleusterau Coleg Llandrillo, y Rhyl ac Ysgol Uwchradd Prestatyn. Byddai’r ysgol newydd yn cynnal ystod fechan o gyrsiau fel rhan o’r bartneriaeth i sicrhau y gall y darparwyr ffydd gynnig elfennau o’r ddarpariaeth ôl 16.

4.9 Os bydd cymeradwyaeth yn cael ei roi, bydd y cam ymgynghori ffurfiol hwn yn cael ei gynnal yn ystod Mehefin a Gorffennaf 2013. Yna, rhoddir gwybod i’r aelodau etholedig a’r awdurdodau esgobaethol am ganfyddiadau’r cyfnod ymgynghori yn ystod hydref 2013. Yn y cam hwn, os yw’r holl bartneriaid yn dymuno symud ymlaen gyda’r cynnig, bydd angen i’r Cabinet gymeradwyo cyhoeddi cynigion statudol i gau’r ddwy ysgol ac agor yr ysgol newydd, a gall partïon â diddordeb gyflwyno gwrthwynebiadau ffurfiol. Os bydd rhybudd yn cael ei gyhoeddi ar ôl 1 Hydref, bydd y cynnig yn cael ei ystyried dan Ddeddf Safonau Ysgol a Sefydliadau newydd (Cymru) 2013. Dan y Ddeddf hon, os bydd gwrthwynebiad yn cael ei dderbyn, yr awdurdod lleol neu’r Gweinidog Addysg fydd â’r penderfyniad terfynol, yn dibynnu ar natur y gwrthwynebiadau a gafwyd.

4.10 Mae Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif y Cyngor, sydd i’w ddarparu mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, yn cynnwys y cyllid posibl ar gyfer darpariaeth ffydd uwchradd. Bydd unrhyw gyllid yn ddibynnol ar ddatblygu cynigion sefydlu ysgol. Nodwyd hefyd bod y Cyngor mewn trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru i gael cadarnhad ynglŷn â lefel y cyfraniad fydd ei angen ar gyfer unrhyw brosiect cyfalaf.

## 5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae’r cynnig yn cefnogi’r flaenoriaeth o “Wella perfformiad mewn addysg ac ansawdd ein hadeiladau ysgol” ac mae wedi’i nodi fel ffrwd gwaith fel a ganlyn:

"Byddwn yn parhau i adolygu darpariaeth ysgol ledled y Sir i sicrhau ein bod yn darparu'r nifer cywir o lefydd ysgol, o'r math cywir ac yn y lleoliad cywir."

**5. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Os bydd y cynigion yn datblygu a chael eu gweithredu, rhagwelir y bydd angen cefnogaeth gan AD a'r Adran Gyfreithiol i gadarnhau'r trefnau i ddiddymu strwythurau llywodraethu presennol y ddwy ysgol a sefydlu trefnau newydd rhwng pawb.

**6. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd am y penderfyniad? Dylid cynnwys yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd fel atodiad i'r adroddiad.**

Awgrymodd yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd y byddai effaith fechan iawn o ran cam cyntaf y cynnig. Gellir gweld datblygu darpariaeth ffydd ar y cyd fel rhywbeth cynhwysol sy'n darparu cynnig addysg (addysg Uwchradd Anglicanaidd) sydd heb fod ar gael o'r blaen yn Sir Ddinbych.

**7. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

Cynhaliwyd ymgynghoriad llawn gyda'r holl gyfranogion ac mae canfyddiadau'r cyfnod Ymgynghori Anffurfiol wedi'u hatodi yn Atodiad 1. Estynnwyd gwahoddiad i'r Awdurdodau Esgobaethol ac Ymddiriedolwyr Santes Ffraid fel cyd-hyrwyddwyr posibl i gyflwyno sylwadau ynglŷn â'r ddogfen ymgynghori drafft erbyn 10 Mai 2013 a nodi a ydynt yn cefnogi'r cynnig cyn i'r Cabinet wneud unrhyw benderfyniad i symud ymlaen. Bydd barn y cyrff perthnasol hyn yn cael eu cyflwyno gerbron y Cabinet ar 14 Mai 2013.

**8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Ni chredir y bydd cost yr ymgynghoriad ffurfiol yn sylweddol a dylid ei gynnal gydag adnoddau presennol. Efallai y gall y canlyniad arwain yn y pen draw at fuddsoddiad cyfalaf sylweddol gan y Cyngor fel rhan o'r Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif sydd wedi'i gynnwys yn y Cynllun Corfforaethol. Bydd yr ymgynghoriad yn ategu'r achos busnes manwl sy'n amodol ar broses gymeradwyo'r Cyngor ar gyfer yr holl wariant cyfalaf.

**9. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae posibilrwydd cryf y gall y cais arwain at gyhoeddusrwydd niweidiol ar gyfer y Cyngor a sylwadau negyddol gan y cyhoedd.

I leihau’r risg hwn, bydd y Cyngor yn sicrhau bod cyfathrebu clir gyda chyfranogion.

## 10. Pŵer i wneud y penderfyniad

Adran 29 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.
Deddf Safonau Ysgolion a Sefydliadau (Cymru) 2013
Fframwaith Polisi Moderneiddio Addysg (cymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Ionawr 2009)